**Tystysgrif Mynediad mewn Cymraeg Ail Iaith: Defnyddio'r Gymraeg**

**PRAWF SIARAD ENGHREIFFTIOL**
***EXAMPLE SPEAKING TEST***

**CYFLWYNIAD**

Mae 4 rhan i'r prawf siarad, sy'n para tua 5-7 munud.
Bydd pob rhan o'r prawf yn cael ei recordio a'i hasesu'n allanol.
Defnyddir naill ai fersiwn y De neu fersiwn y Gogledd, yn dilyn y ffurfiau sy'n cael eu dysgu ar y cyrsiau mwyaf cyffredin.

Yn Rhan 1, mae'r ymgeisydd a'r cyfwelydd ddarllen deialog yn uchel. Y cyfwelydd sy'n dechrau.
Asesir ynganu yn y rhan hon.
Yn Rhan 2, mae'r cyfwelydd yn gofyn 8 cwestiwn i'r ymgeisydd.
Asesir cywirdeb yr atebion, a dylai'r ymgeisydd ateb mewn brawddeg lawn.
Yn Rhan 3, mae'r cyfwelydd yn gofyn 5 cwestiwn i'r ymgeisydd am lun a sbardunau eraill.
Eto, asesir cywirdeb yr atebion, a dylai'r ymgeisydd ateb mewn brawddeg lawn.
Yn Rhan 4, mae'r ymgeisydd yn gofyn 5 cwestiwn i'r cyfwelydd, gan ddefnyddio'r sbardunau ar y papur. Asesir gallu'r ymgeisydd i ffurfio cwestiynau cywir.

Ar ddechrau'r prawf, mae'r cyfwelydd yn croesawu'r ymgeisydd i'r ystafell gyfweld, ac yn rhoi taflen yr ymgeisydd iddo/iddi. Mae gan yr ymgeisydd 2 funud i edrych drwy'r ddeialog. Y cyfarwyddyd i'r cyfwelwyr yw defnyddio'r Gymraeg yn unig trwy gydol y prawf ac nid oes angen iddynt asesu'r ymgeiswyr. Rhoddir rhai sylwadau ar y prawf isod fesul rhan, ar sail yr enghreifftiau fideo ar wefan CBAC.

***INTRODUCTION***

*There are 4 parts to the speaking test, which takes around 5-7 minutes.*
*Each part of the test will be recorded and assessed externally.*
*Either the South or North Wales version is used, following the forms which are taught on the most widely used courses.*

*In Part 1, the candidate and the interviewer read the dialogue aloud. The interviewer starts.*
*Pronunciation is assessed in this part.*
*In Part 2, the interviewer will ask the candidate 8 questions.*
*The accuracy of the answers is assessed, and candidates should respond using a full sentence.*
*In Part 3, the interviewer asks the candidate 5 questions about a picture and other prompts.*
*Again, the accuracy of the answers is assessed, and candidates should respond using a full sentence.*
*In Part 4, the candidate asks the interviewer 5 questions, using the prompts on the paper. The candidate's ability to form correct questions is assessed.*

*At the start of the test, the interviewer welcomes the candidate to the interview room, and gives him/her the candidate's sheet. The candidate has 2 minutes to look at the dialogue. Interviewers are instructed to use Welsh throughout the test, and are not required to assess the candidates' performance. Comments are given about the test below, based on the video examples on the WJEC website.*

**Rhan 1 – Darllen yn uchel**
***Part 1 – Reading aloud***

**Fersiwn y De**
***South Wales Version***

Cyfwelydd: Bore da, pwll nofio Llanaber.
*Interviewer:*

Ymgeisydd: Bore da. Dw i eisiau bwcio'r pwll os gwelwch chi'n dda.
*Candidate:*

Cyfwelydd: Dim problem. Pam?

Ymgeisydd: I gael parti pen-blwydd ar y cynta o Fai. Bydd Siân yn chwech oed.

Cyfwelydd: Un funud. Rhaid i fi edrych ar y calendr. Dych chi'n lwcus: mae'r pwll ar gael.

Ymgeisydd: Ardderchog. Ydy hi'n bosib cael parti nofio am awr, a bwyd wedyn?

Cyfwelydd: Ydy. Beth yw'r enw a'r cyfeiriad, os gwelwch chi'n dda?

Ymgeisydd: Ceri Dafydd, Bryn Eira, Llanaber.

Cyfwelydd: Diolch yn fawr. Mae'r parti yn y calendr.

**Fersiwn y Gogledd**
***North Wales Version***

Cyfwelydd: Bore da, pwll nofio Llanaber.
*Interviewer:*

Ymgeisydd: Bore da. Dw i isio bwcio'r pwll os gwelwch chi'n dda.
*Candidate:*

Cyfwelydd: Dim problem. Pam?

Ymgeisydd: I gael parti pen-blwydd ar y cynta o Fai. Mi fydd Siân yn chwech oed.

Cyfwelydd: Un munud. Rhaid i mi edrych ar y calendr. Dach chi'n lwcus: mae'r pwll ar gael.

Ymgeisydd: Ardderchog. Ydy hi'n bosib cael parti nofio am awr, a bwyd wedyn?

Cyfwelydd: Ydy. Be' ydy'r enw a'r cyfeiriad, os gwelwch chi'n dda?

Ymgeisydd: Ceri Dafydd, Bryn Eira, Llanaber.

Cyfwelydd: Diolch yn fawr. Mae'r parti yn y calendr.

**

**Enghraifft 1 – Gareth ac Alex**
***Example 1 – Gareth and Alex***

**Sylwadau**
Mae'r ymgeisydd hwn yn ynganu Cymraeg yn ddidrafferth. Gellir tynnu sylw at un neu ddau o fanion, e.e. y duedd i ddweud 'r' dawel ('bwcio'**r** pwll'); ac mae hi'n camddarllen 'Ydy hi'n **b**osib...' a 'Llan**a**ber' ar y diwedd. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn cael marciau uchel am y rhan hon.

***Comments***
*This candidate can pronounce Welsh with ease. One or two small details can be highlighted, e.g. the tendency to say a silent 'r', ('bwcio'r pwll'); and she misreads 'Ydy hi'n **b**osib...' and 'Llan**a**ber' at the end. However, this candidate would receive very high marks for this section.*

**Enghraifft 2 – Sharon a Brian**
***Example 2 – Sharon a Brian***

**Sylwadau**
Mae'r ymgeisydd hwn hefyd yn ynganu'n dda. Mae rhai ymadroddion sydd ychydig yn aneglur ganddo, e.e. os gwelwch chi'n dda, ardderchog, am awr, Eira. Fel yr ymgeisydd arall, mae'n camacennu Llanaber. Byddai'r ymgeisydd hwn yn derbyn marciau uchel mewn prawf byw.

***Comments***
*This candidate also pronounces well. Some phrases are rather unclear, e.g. os gwelwch chi'n dda, ardderchog, am awr, Eira. Like the other candidate, he misplaces the accent on Llanaber. This candidate would receive high marks in a live test.*

**Rhan 2 – Ateb cwestiynau**
***Part 2 – Answering questions***

Mae'r cyfwelydd yn gofyn 8 cwestiwn i'r ymgeisydd, yn cynnwys 2 gwestiwn 'ymestynnol'. Mae'r cwestiynau ymestynnol yn dibynnu ar ymateb blaenorol yr ymgeisydd. Rhoddir y cwestiynau craidd yn y fanyleb. Does dim cwestiynau i'w gweld ar daflen yr ymgeisydd.

*The interviewer asks the candidate 8 questions, including 2 'extended' questions. The extended questions depend on the response given previously by the candidate. The core questions are given in the specification. No questions are seen on the candidate's sheet.*

**Fersiwn y De**
***South Wales Version***

1. Beth yw'ch gwaith chi?
2. Oes anifeiliaid anwes gyda chi?
3. Sut roedd y tywydd ddoe?
4. Beth dych chi'n ei hoffi ar y teledu?
5. Ble aethoch chi ar eich gwyliau diwetha?
6. [Cwestiwn ymestynnol/*Extended question*]
7. Beth dych chi'n mynd i'w wneud yfory?
8. [Cwestiwn ymestynnol]

**Fersiwn y Gogledd**
***North Wales Version***

1. Be' ydy'ch gwaith chi?
2. Oes gynnoch chi anifeiliaid anwes?
3. Sut roedd y tywydd ddoe?
4. Be' dach chi'n ei hoffi ar y teledu?
5. Lle aethoch chi ar eich gwyliau diwetha? / Lle wnaethoch chi fynd ar eich gwyliau diwetha?
6. [Cwestiwn ymestynnol/*Extended question*]
7. Be' dach chi'n mynd i'w wneud yfory?
8. [Cwestiwn ymestynnol]

**

**Enghraifft 1 – Gareth ac Alex**
***Example 1 – Gareth and Alex***

**Sylwadau**
Mae'r ymgeisydd yn ateb yn gryno ac yn gywir ar y cyfan. Mae hi'n gwneud rhai camgymeriadau, e.e. Dw i'n **gwaith** (yn lle 'gweithio') mewn tŷ henoed; Dw i'n hoffi edrych __ Criminal Minds'. Mae hi'n gwybod patrwm 'rhaid' wrth ateb cwestiwn 7, ond mae'n ansicr wrth orffen y frawddeg, '.... cael fy merch nofio.' Er mor 'naturiol' yw ateb â hanner brawddeg neu un gair yn enwedig yn y cwestiynau ymestynnol, mae'n colli marciau wrth beidio â defnyddio brawddeg lawn. Mae rhai atebion yn cael marciau llawn, a'r atebion eraill yn rhannol gywir.

***Comments***
*The candidate answers succinctly and accurately on the whole. She makes some errors, e.g. Dw i'n gwaith (instead of 'gweithio') mewn tŷ henoed; Dw i'n hoffi edrych __ Criminal Minds'. She knows the 'rhaid' pattern when answering question 7, but is uncertain when ending the sentence, '... cael fy merch nofio.' Despite the 'naturalness' of answering with a half sentence or one word, especially in the extended questions, she loses marks for not using a full sentence. Some responses get full marks and other responses are partially correct.*

**Enghraifft 2 – Sharon a Brian**
***Example 2 – Sharon a Brian***

**Sylwadau**
Mae nifer o ymatebion yr ymgeisydd hwn yn gwbl gywir, e.e. 1,3,4,5. Mae patrwm 'Does gen i ddim...' yn aneglur, ond mae hawl gan yr ymgeisydd i hunangywiro heb golli marciau. Mae rhai atebion rhannol gywir, e.e. 4 (hepgor arddodiad ar ôl edrych....), ac mae'n anghofio ateb mewn brawddeg lawn wrth ymateb i'r cwestiwn Efo pwy aethoch chi ar wyliau? Mae'n camddeall bwriad y cwestiwn olaf (Lle dach chi'n hoffi siopa?), felly mae'n colli marciau am hynny.

***Comments***
*A number of this candidate's responses are correct, e.g. 1,3,4,5. The pattern 'Does gen i ddim...' is unclear, but the candidate can self-correct without losing marks. Some answers are partially correct, e.g. 4 (omitting the preposition after 'edrych...'), and he forgets to answer in a full sentence in reply to Efo pwy aethoch chi ar wyliau? He misunderstands the intention of the last question (Lle dach chi'n hoffi siopa?), and loses marks for this.*

**Rhan 3 – Cwestiynau am y llun**
***Part 3 – Questions about the picture***

Mae'r ymgeisydd yn cael ychydig o amser i edrych ar y llun a'r sbardunau. Yna, mae'r cyfwelydd yn gofyn y cwestiynau dilynol. Does dim cwestiynau i'w gweld ar daflen yr ymgeisydd.

*The candidate has a short time to look at the picture and the prompts. Then, the interviewer asks the following questions. No questions are seen on the candidate's sheet.*



Dyma Gwen.

| | |
|---|---|
| Yn wreiddiol: | Llundain |
| Hoffi: | chwarae tennis |
| Teulu: | 2 o blant |
| Neithiwr: | i'r ganolfan hamdden |
| Gwaith: | [Llun/*Picture*] |

**Fersiwn y De**
***South Wales Version***

1. O ble mae Gwen yn dod yn wreiddiol?
2. Beth mae hi'n hoffi'i wneud yn ei hamser sbâr?
3. Oes teulu gyda Gwen?
4. Ble aeth hi neithiwr?
5. Beth yw gwaith Gwen? [cwestiwn yn seiliedig ar y llun/*question based on picture*]

**Fersiwn y Gogledd**
***North Wales Version***

1. O le mae Gwen yn dŵad yn wreiddiol?
2. Be' mae hi'n hoffi'i wneud yn ei hamser sbâr?
3. Oes gan Gwen deulu?
4. Lle aeth hi neithiwr?/Lle wnaeth hi fynd neithiwr?
5. Be' ydy gwaith Gwen? [cwestiwn yn seiliedig ar y llun/*question based on picture*]

**

**Enghraifft 1 – Gareth ac Alex**
***Example 1 – Gareth and Alex***

**Sylwadau**
Mae'r ymgeisydd yn ymateb i'r cwestiynau 3ydd person yn dda iawn eto. Tuedda dysgwyr i ddrysu 'byw yn' a 'dod o', felly mae hwn yn gamgymeriad cyffredin. Yr ymateb lleiaf cywir yw'r un yn y gorffennol, lle mae'r ymgeisydd yn cymysgu 'Es i' ac 'Aeth hi'. Fodd bynnag, mae rhai ymatebion eraill yn cael y marc llawn.

***Comments***
*The candidate responds to the 3rd person questions very well again. Learners tend to confuse 'byw yn' and 'dod o', so this is a common error. The least correct response is the one in the past, where the candidate has mixed 'Es i' and 'Aeth hi'. However, some of the other responses get full marks.*

**Enghraifft 2 – Sharon a Brian**
***Example 2 – Sharon a Brian***

**Sylwadau**
Mae ymatebion i gwestiynau 4 a 5 yn gwbl gywir, a dim ond manion sydd o le ar ymatebion 1 a 2. Mae llawer o ymgeiswyr yn ceisio ailadrodd yr ymadrodd 'yn ei amser sbâr' neu 'yn ei hamser sbâr' ac yn gwneud camgymeriadau wrth wneud hynny – does dim angen ail-ddweud yr ymadrodd i gael marc llawn. Fodd bynnag, mae'n colli marciau gyda'r ymateb 'Mae hi'n dau o blant' gan fod y gystrawen yn anghywir.

***Comments***
*The responses to questions 4 and 5 are correct, and only minor details are incorrect in responses 1 and 2. Many candidates try to repeat the phrase 'yn ei amser sbâr' or 'yn ei hamser sbâr' and make mistakes in doing so – there is no need to repeat the phrase to get the full mark. However, he loses marks with the response 'Mae hi'n dau o blant' as the syntax is incorrect.*

**Rhan 4 – Cwestiynau i'r cyfwelydd**
***Part 4 – Asking the interviewer questions***

Mae'r ymgeisydd yn gofyn 5 cwestiwn i'r cyfwelydd gan ddefnyddio'r geiriau a restrir fel sbardunau. Rhoddir rhestr o'r sbardunau posibl yn y fanyleb. Mae'r cyfwelydd yn ateb, ond heb ymhelaethu.

*The candidate asks the interviewer 5 questions using the words listed as prompts. A list of possible prompts is given in the specification. The interviewer answers without elaboration.*

1. enw
2. plant
3. wythnos diwetha
4. darllen
5. o'r gloch

Dyna ddiwedd y prawf.

*That's the end of the test.*

**

**Enghraifft 1 – Gareth ac Alex**
***Example 1 – Gareth and Alex***

**Sylwadau**
Er bod ychydig o hiwmor yn braf, mae perygl i ymgeiswyr wneud camgymeriadau wrth geisio bod yn ffraeth. Dyma ran wannaf y prawf i'r ymgeisydd hwn, ac i ymgeiswyr eraill yn gyffredinol yn y prawf siarad Mynediad. Mae gan yr ymgeisydd eirfa na fyddid yn ei ddisgwyl gan ddysgwr ar y lefel hon fel arfer, e.e. 'mabolgampau nofio'. Er bod mentro a defnyddio iaith mewn ffordd wreiddiol i'w gymeradwyo yn y cwrs a'r tu allan i'r dosbarth, gwell cadw at atebion syml a chryno yn y prawf hwn.

***Comments***
*Although a dose of humor is fine, there is a danger that candidates make mistakes when trying to be witty. This section is the weakest by this candidate, and for candidates generally in the Mynediad speaking test. The candidate has some vocabulary that would not normally be expected from a learner at this level, e.g. 'mabolgampau nofio'. Although venturing and using language in an original way is to be encouraged in the course and outside the class, it's better to keep to short and simple answers in this test.*

**Enghraifft 2 – Sharon a Brian**
***Example 2 – Sharon a Brian***

**Sylwadau**
Mae'r rhan fwyaf o'r cwestiynau'n gywir, (2,4 a 5). Nid yw'n colli marc am ddefnyddio 'ti' (er y byddid yn argymell defnyddio 'chi' fel rheol). Wrth ddefnyddio'r sbardun yn y gorffennol, mae'r cwestiwn yn y presennol: 'Be' dach chi'n wneud wythnos diwetha?' felly mae'r cwestiwn hwnnw'n cael marc isel.

***Comments***
*Most of the questions are correct, (2,4 and 5). He doesn't lose marks for using 'ti' (although using 'chi' is usually recommended). When using the past tense prompt, the question is in the present: therefore this question gets a low score.*

**

**Crynodeb**
Byddai'r ddau ymgeisydd wedi llwyddo'n ddiogel pe bai hwn yn brawf byw. Mae pob brawddeg neu gwestiwn yn cael ei asesu a sgôr yn cael ei roi ar sail y disgrifyddion yn y fanyleb a chynllun manwl o atebion rhannol gywir posibl. Y trothwy llwyddo arferol yw 60% o'r cyfanswm.

***Summary***
*Both candidates would have passed easily if this were a live test. Each sentence or question is assessed and a score given on the basis of the descriptors in the specification and a detailed scheme of partially correct possible answers. The normal pass mark is 60% of the total.*